
**Amlwch**
(20260813)



Hynod fore'n sain difyrrwch - yn dôn
Chwedeg Dau am Amlwch;
Gweniaith Moelfre'n digonwch:
Hwyrgan y cei ar gainc cwch.

(Mynd bore ‘ma gyda D ar fws 62 o Fenllech i Amlwch am ffroes, nôl i Foelfre am hufen iâ ac oifad, ac wedyn am adref erbyn amser tê.)

**UnNosWener**
(20260810)



Pontio, tra’n cofio'r cyfan - hynafiaeth
Nanhyfer, gwib gwylan
Ac awel lon ar draeth glân;
Pontio'r haf, Pentre Ifan.

(Mynd o faes yr Eisteddfod i Nanhyfer a Phentre Ifan, ac i draeth Poppit ger Llandudoch, gyda H nos Wener.)

**Carafanio!**
(20260809)



Gwaith diflino llywio'm llên - her oriau’r
Hir aros am awen;
Yn Nerwen Gam, rhannu gwên
Er odli yn yr adlen!

(Dwy noson ‘da H. yn y garafan yn Nerwen Gam.)

**Oifad**

(20260808)



Dyma fi ger lli' di-don - yn addef,
Fy naw nef min Neifion
Yn mwydr-gamu drwy'r gwymon;
Llawen wyf ar draeth Llannon.

(Oifad yn Llannon â machlud bythgofiadwy "Monetaidd" yn gefndir ar y ffordd adref o'r Eisteddfod.)

**Cer'ed**

(20260805)



I ben bryn a gwyn ei gwên,
Caraf wawl criafolen;
I orsedd dyfrol bersawr
Yn y man, Llyn Y Fan Fawr;
Ar ei glan, nid oes glanach
Na chrochan Llyn Y Fan Fach;
I geg hendre carreg cof,
Egwyl Carreg Yr Ogof;
Grug y lôn a'r Garreg Las,
Heulfre, gwynfe ar ganfas.
Dyfal atynnol alaw
Trechu drain ger y Twrch draw;
Awchu llwybr Cwm Twrch Uchaf
Diweddiad llwybreiddiad braf.
Cysurus y cwys araf
Drwy Riw Fawr, am adref âf;
Pen Y Wern a'i gopa'n wên,
Caraf wawl criafolen.

(Cerdded gyda'r ci o gydlifiad Nant Y Llyn â'r afon Tawe ger hewl Trecastell, o amgylch Llyn Y Fan Fawr a Llyn Y Fan Fach, a dilyn yr afon Twrch wedyn nôl i waelod tyle'r Berrington. Wedyn dros y bryn i Riw Fawr, lan i Ben Y Wern, ac adref. Nefoedd.)

**Eisteddfod**
(20260802)



Dathliad 'rôl paratoadau gwirio
Geiriau, gwirio nodau;
Cynefin haf, cawn fwynhau
Eglwyswrw'r glas erwau.

(Dydd Sadwrn cyntaf Eisteddfod y Garreg Las, â Chôr Rhuthun yn canu.)

**Caersaint**
(20260801)

Ôl rheibio a saif fel rhybudd - am fyw,
Am fod yn rhy ufudd;
Castell atgofion cystudd,
Trasiedi ein cyni cudd.

(Diwrnod 'da J, D a G yng Nghaernarfon.)

**PorthNabla**
(20260731)



Talwrn 'da'r tywod helaeth - caf awen
Fel heulwen realaeth;
Synfyfyrio'n troedio'r traeth:
Ond eiliad yw 'modolaeth.

(Mynd i oifad a meddwl dydd Mawrth.)

**YrWyddfa**
(20260722)



Dydd uwch i drefniant Rhyd ddu - erwau aur
Eryri yn rhannu
Eu cainc, a'r Wyddfa'n canu
Ei grwndi i'r cwmni cu.

(Dydd Mawrth, lan Rhyd ddu, a lawr Watcyn cyn troi'n ôl i Ryd ddu. Bendigedig.)

**Hola!**
(20260719)

Awchu’r helynt a chweryla - dan din
Doniau Argentina;
Ond nid brau bu’r doniau da
Yng ngwledd bonedd España.

(Yr Archentwyr yn ofnadwy neithiwr, a rhyddhad mawr oedd gweld Sbaen yn ennill.)

**MessiMeseia!**
(20260712-16)

Mae gwên Kane yn creu cyni - ing yw hoen
Bellingham, sy’n llosgi!
Daw rhywun i’n helpu ni?
Ar y maes, sgoria Messi!!!

Gwasgu ar faes heb gysgod - taer yw chwant
Archentwyr! A’r Llewod
Gwallgo yn ildio i’w nod:
Sbri bois Messi’n ymosod!

(Lloegr yn chwarae’r Archentwyr unwaith eto yng Nghwpan y Byd, yn y rownd gyn-derfynol.)

**SionedAJosh**
(20260912)

Paentiad cariad: ar y cyd, cofiaf wyll,
Cyfeillion, a’r machlud;
Ôl heulog waun fel gwynfyd:
Tir bras uwch Pwllglas yn glyd.

(Dathlu priodas S. T.C., ma’s ar ben mynydd â machlud bendigedig.)

**OrMartIrMaes**
(20260712)

Doniau gorau yw’r dyngarol - O’r Mart
I’r Maes, gafael eurol
Syniadau trawsnewidiol,
A ffoi bydd y cancỳr ffôl.

(MM yn canu yn yr Ocsiwn mewn cyngerdd i godi arian ar gyfer Ymchwil Cancr Cymru, elusen annibynnol Gymreig - â siaradwyr gwych.)

**TonWresArall**
(20260711)

Pawb wedi dechrau pobi - yn ochain
Am syched a phoethni;
Odyn haf yw’n tynged ni
Yn y gwres sy’n goroesi.

(Ton wres arall, does 30 C ddoe a heddiw.)

**YnYrHaul**
(20260708)



Am antur! Mynd i wilmentan - gwir hoe
Drwy grwydro'n yr huan;
Gwely aur ger y môr glân
Yw rhith bochau Traeth Bychan.

(Rhedeg lŵp newydd 10k drwy Draeth Bychan.)

**Mabolgampau**
(20260706)

Bore gwyn ar heulfryn haf - a defod
Dyfan syrthiodd arnaf:
Awr bri o gyd-chwarae braf
Ac yntau'n cwpla'n gyntaf.

(Mabolgampau ysgol D.)

**Northleach**
(20260701-5)

Apêl y garreg felen
A haidd Cotswoldaidd wên;
Yn goflaid gorau gyflwr,
Rhyd aur Bourton ar y Dŵr.

Medi'r hin, a mynd am dro
I rannu parc 'da'r rheino,
Dal hoen y dylluan dlos
A lloniant lliwiau llinos.

A gadael dros ael i'r wig,
I fin yr oes Rhufeinig;
Tynnu'n nes at lodes lân
I geisio rhoi llaw-gusan!

Hanner awr i lawr y lôn
I'r angel yng Nghaerwrangon;
Er mawrfudd cynhalydd nef,
Da medru mynd am adref.
Ffarwel i'r garreg felen,
A chraidd Caerloywaidd lên.

(Penwythnos hir yn Northleach rhwng Bourton on the Water a Cirencester, gyda'r teulu cyfan.)